



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg

Hydref 2017

1 Cyflwyniad

- 1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos ar ddiwygiadau arfaethedig i'r ddogfen cyngor polisi cynllunio "Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg" o 4 Ionawr – 30 Mawrth 2016.
- 1.2 Cyhoeddwyd y fersiwn presennol o TAN 20 ym mis Hydref 2013 ac mae'n darparu cyngor manwl i awdurdodau cynllunio lleol ar sut i roi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Cafodd TAN 20 ei ategu gyda chanllawiau ymarferol pellach a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014.
- 1.3 Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ofynion deddfwriaethol ar gyfer y system gynllunio mewn cysylltiad ag ystyriaeth o'r iaith Gymraeg, a arweiniodd at angen i ddiweddarau'r canllawiau cynllunio. Roedd fersiwn yr ymgynghoriad o'r Nodyn Cyngor Technegol yn ceisio sicrhau eglurder a chyngor ar oblygiadau'r gofynion deddfwriaethol hyn, sy'n effeithio ar awdurdodau cynllunio lleol, ymgeiswyr a rhanddeiliaid ehangach yn y system gynllunio.
- 1.4 Roedd fersiwn yr ymgynghoriad o TAN 20 yn cynnwys diweddariadau a diwygiadau i fersiwn Hydref 2013, yn hytrach na fersiwn wedi'i ail-ysgrifennu'n llwyr, oherwydd mae rhannau mawr o'r ddogfen honno'n parhau i fod yn ddilys a pherthnasol. Felly, roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ar faterion penodol yn TAN 20 a oedd yn ddarostyngedig i newid. Er mwyn casglu'r safbwyntiau hyn, gofynnwyd cyfres o gwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar yr ymgynghoriad ar y prif newidiadau.

2 Cyhoeddusrwydd

- 2.1 Cyhoeddwyd manylion yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru drwy'r cyfnod ymgynghori a chawsant eu nodi ar dudalen gwe TAN 20. Mae gan Lywodraeth Cymru restr o rhanddeiliaid sefydledig y system gynllunio a chawsant eu hysbysu ynglŷn â'r ymgynghoriad drwy e-bost uniongyrchol ar 4^{ydd} Ionawr 2016. Ymhlith y rhanddeiliaid hyn roedd Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Cynllunio y 25 awdurdod cynllunio lleol, 23 ymgynghorai statudol, 101 ymgynghorai anstatudol a chwe grŵp diddordeb arbennig.
- 2.2 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar dudalennau gwe Cynllunio gwefan Llywodraeth Cymru ac ar ffrydiau Twitter Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Adnoddau Naturiol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ym mwletinau e-bost dau gyhoeddiad cynllunio trefol, *'The Planner'* a *'Planning'*, a hysbysebodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru yr ymgynghoriad i'w aelodau ar sawl achlysur drwy ei fwletin e-bost rheolaidd ac yn rhifyn Ionawr 2016 o'r cylchgrawn *'Cynllunio'*.

3 Cynigion allweddol

3.1 Y rheswm dros ddiweddar TAN 20 oedd cyflwyniad deddfwriaeth ar gynllunio a'r Gymraeg, sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, a'r angen i ddarparu cyngor ymarferol i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i roi darpariaethau deddfwriaethol ar waith. Y prif newidiadau arfaethedig i TAN 20 oedd:

- Roedd Deddf Cynllunio (Cymru) yn nodi y gallai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau pan fydd yn berthnasol i'r cais.

Roedd rhagor o fanylion ym mharagraff 3.1 yn rhan A y Nodyn Cyngor Technegol.

- Y prif ysgogwr i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y Gymraeg yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol yw'r fframwaith cynllunio deddfwriaethol yn hytrach na'r cynllun integredig sengl. Dilëwyd y cyfeiriadau at y Cynllun Integredig Sengl ac nid yw'r cyfeiriadau at y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cynlluniau llesiant yn ganolog i'r TAN yn yr un modd ag yr oedd y Cynllun Integredig Sengl.

Roedd y newidiadau i'r perwyl hwnnw ym mharagraff 1.6 yn Rhan A y Nodyn Cyngor Technegol.


- Cydnabyddir nad oes modd, wrth fynd ati i baratoi'r CDLI rhagweld pob datblygiad arfaethedig ac felly cynigir caniatáu i ACLI gynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith yn achos mathau penodol o ddatblygiadau ar hap. Fel rheol, yr unig adeg y byddai angen cynnal asesiad o'r fath fyddai yn achos datblygiadau preswyl ac ynddynt 10 neu fwy o anheddau mewn ardaloedd a nodwyd yn y CDLI eu bod yn ardaloedd o sensitifrwydd neu o arwyddocâd ieithyddol.

Ymdrinnir â'r mater hwn ym mharagraffau 3.2 a 3.3 Rhan A y Nodyn Cyngor Technegol.

4 Yr ymatebion

4.1 Derbyniwyd cyfanswm o 52 ymateb i'r ymgynghoriad. Yr ymatebwr mwyaf yn ôl math oedd awdurdodau cynllunio lleol (ACLI), gyda 18 o'r 25 ACLI yng Nghymru yn darparu sylwadau o sylwedd. Roedd hyn yn cynrychioli 34% o'r holl ymatebion. Roedd ymatebwyr unigol ac 'arall' yn cynrychioli 29% o'r ymatebion a derbyniwyd 13% o'r ymatebion gan gyrff proffesiynol neu grwpiau diddordeb. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI), Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, Cymdeithas yr Iaith a Dyfodol i'r Iaith. Derbyniwyd y nifer llai o ymatebion gan fusnesau, asiantaethau'r Llywodraeth a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg ac Un Llais Cymru, a'r sector gwirfoddol.

Ffigur 1: Ymatebion i ymgynghoriad TAN 20 yn ôl math.




5 Crynodeb o'r ymatebion yn ôl cwestiynau

5.1 Mae'r adran hon yn crynhoi ymatebion i wyth cwestiwn yr ymgynghoriad. Pan na fydd sylwadau wedi'u priodoli'n uniongyrchol i gwestiwn, mae'r sylwadau wedi'u cysylltu i'r cwestiwn mwyaf priodol.

1. Ydych chi'n cytuno bod goblygiadau adran 11 ac adran 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) yn cael eu hesbonio'n glir yn y TAN 20 diwygiedig?

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
Awdurdodau Cynllunio Lleol	12	0	6
Busnesau	2	0	0
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	4	0	0
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb	1	2	2
Sector Gwirfoddol	2	0	2
Arall	1	3	2
Cyfanswm	22	5	12
%	56%	13%	31%



- Roedd nifer o'r ymatebwyr cefnogol yn cytuno â'r datganiad yn syml, ond roedd eraill yn mynegi cefnogaeth fwy gochelgar. Er enghraifft, awgrymwyd y gellid darparu eglurhad

pellach ar gymhwysedd a goblygiadau pob un o'r darpariaethau yn y TAN, ynghyd ag enghreifftiau o arfer da. Yn nhermau gwybodaeth neu eglurder pellach, cynigiodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, y dylai'r TAN diwygiedig gyflwyno dull safonol a chyson ar gyfer asesu effeithiau ar y Gymraeg.

- II. Roedd bron i draean o'r ymatebwyr yn anghytuno bod goblygiadau'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cynllunio (Cymru) wedi'u nodi'n glir yn y TAN 20 diwygiedig. Roedd rhai ACLI a grwpiau diddordeb o'r farn nad oedd Adran 31 y Ddeddf, yn benodol, wedi'i dehongli'n gywir, gan awgrymu nad oedd y TAN yn caniatáu'n benodol i'r Gymraeg gael ei hystyried mewn unrhyw gais penodol ar gyfer caniatâd cynllunio. O'r gwrthwynebwyr a oedd yn weddill, roedd yr adborth yn nodi y dylid darparu canllaw mwy manwl er mwyn dileu unrhyw amwysedd neu bosibilrwydd y byddai awdurdodau cynllunio lleol yn cymhwyso'r polisi cynllunio mewn modd anghyson.


Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodir yn y fersiwn drafft o'r Nodyn Cyngor Technegol, mae'r defnydd o'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol ar hyd a lled Cymru, felly, bydd angen dulliau gwahanol wrth ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg. Ni fu'n bosibl llunio dull safonol sy'n berthnasol i Gymru gyfan, ond mae'r canllaw ymarferol yn Rhan B y TAN drafft yn rhoi cyngor i ACLI ar y dystiolaeth a'r dulliau dadansoddi a allai eu cynorthwyo i asesu effeithiau cynllunio a datblygiadau ar y Gymraeg.

Roedd y TAN drafft yn ceisio amlinellu'r gofynion deddfwriaethol mewn modd ffeithiol a darparu cyngor i ACLI ar sut i lunio polisiau sy'n diogelu a hybu'r Gymraeg yng nghyd-destun deddfwriaethol Deddf Cynllunio (Cymru). Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r adborth a dderbyniwyd y gellid esbonio adran 31 y Ddeddf yn well yn y fersiwn terfynol o TAN 20.

2. Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol, yng nghyd-destun ceisiadau ar hap, fedru clustnodi yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol, ardaloedd lle mae'r iaith yn fater arbennig o sensitif?

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
Awdurdodau Cynllunio Lleol	10	6	2
Busnesau	1	1	0
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	4	0	0
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb	4	1	0
Sector Gwirfoddol	4	0	0
Arall	5	0	1
Cyfanswm	28	8	3
%	72%	21%	8%



- I. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r awgrym y gallai ACLI ddiffinio ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn arbennig o sensitif neu arwyddocaol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Cynigiodd Llywodraeth Cymru bod yr ardaloedd hyn yn offerynnau ar gyfer ysgogi mesurau lliniaru neu wella, ac ar gyfer defnyddio asesiadau o effaith ar safleoedd ar hap annisgwyl. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod rhywfaint o ansicrwydd ymhlith yr ymatebwyr ynglŷn â sut y byddai'r meysydd hyn yn cael eu defnyddio yn ymarferol.

- II. Roedd nifer o ACLI yn cefnogi'r syniad y dylid diffinio meysydd o arwyddocâd neu sensitifrwydd ieithyddol ar lefel leol, a'u bod yn seiliedig ar nifer o ffynonellau gwahanol o dystiolaeth. Fodd bynnag, mynegodd Comisiynydd y Gymraeg bryder o roi'r hyblygrwydd i ACLI benderfynu ar y meysydd hyn heb i ddiffiniad cadarn a chyson gael ei orfodi gan Lywodraeth Cymru. Awgrymwyd gan un ACLI y dylai Byrddau Gwasanaeth Lleol gael rôl allweddol yn casglu tystiolaeth a diffinio meysydd o'r fath, a fyddai'n atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Cynlluniau Llesiant Lleol a'r CDLI. Gofynnodd un ACLI am eglurhad ar bwynt manwl, yn gofyn am sicrwydd pan fydd y dynodiad yn cwmpasu'r ardal gynllunio gyfan, na fyddai angen dangos y dynodiad ar y map cynigion.
- III. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan y sector busnes a Chymdeithas y Cyfreithwyr yn dangos y byddai'r cynnig hwn yn cyflwyno mwy o sicrwydd i ddatblygwyr a thirfeddianwyr. Rhoddodd Dyfodol i'r iaith gefnogaeth amodol i'r cynnig a datgan eu cred ei bod yn bwysig amlygu'r ardaloedd daearyddol hynny lle mae'r iaith yn arbennig o gryf ac yn hyfyw i arddangos ei photensial i fod yn iaith gymunedol mewn mannau eraill yng Nghymru. Roedd Cymdeithas yr iaith yn anghytuno â'r cynnig, gan ddadlau y byddai'n arwain at ganfyddiad bod yr iaith yn 'annormal' yn hytrach nac yn perthyn i Gymru gyfan.


Ymateb Llywodraeth Cymru

Croesewir y gefnogaeth gan ystod eang o randdeiliaid. Mae nifer o ACLI eisoes wedi gweithredu'r cysyniad o gymhwyso dulliau polisi wedi'u teilwra mewn ardaloedd diffiniedig o fewn CDLI. Anogir unrhyw ACLI sy'n ystyried y dull gweithredu hwn i edrych ar enghreifftiau presennol a ddatblygwyd gan ACLI eraill, ac i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau a nodweddion lleol.

Rydym yn cytuno â'r awgrym bod gan Fyrddau Gwasanaeth Lleol rôl yn y gwaith o gasglu a rhannu tystiolaeth gyda thimau CDLI a bydd yn atgyfnerthu'r cyfeiriadau at y cysylltiadau pwysig rhwng y Cynlluniau Llesiant Lleol a'r CDLI.

3. Mae'r canllawiau'n annog awdurdodau cynllunio lleol i weithio gyda sefydliadau megis swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a'r Mentrau Iaith wrth nodi ardaloedd sydd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol. Ydych chi'n cytuno â hynny?

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
Awdurdodau Cynllunio Lleol	13	5	0
Busnesau	1	1	0
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	4	0	0
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb	4	1	0
Sector Gwirfoddol	4	0	0
Arall	4	0	2
Cyfanswm	30	7	2
%	77%	18%	5%



- I. Roedd pob un o'r gwahanol fathau o ymatebwyr yn cefnogi'r agwedd hon o'r Nodyn Cyngor Technegol ac yn nodi budd defnyddio gwybodaeth a chyngor lleol ehangach wrth nodi ardaloedd o'r fath, gan gynnwys mewnbwn gan grwpiau iaith lleol ac adrannau eraill awdurdodau lleol. Mynegwyd pryderon gan rai o'r awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â'r goblygiadau adnoddau ac ariannol o ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth allanol, gan awgrymu y dylai'r ACLI a'r ymgylgoreion dderbyn cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd awgrymiadau gan gefnogwyr eraill y dylid creu

grwpiau polisi trawsffiniol ffurfiol er mwyn helpu i ddsbarthu arfer da a rhannu tystiolaeth ac arbenigedd.

- II. Ysgrifennodd nifer o'r ymatebwyr yn gadarnhaol am rôl Mentrau Iaith a'r Comisiynydd yn y broses a chafwyd sylwadau ar sut y gellid datblygu'r rolau hyn yn effeithiol. Awgrymodd RTPI Cymru y gellid ystyried yr ymarfer yn un dadleuol a allai arwain at drafodaethau heriol ar Archwilio CDLI, a byddai cyfraniad cynnar rhanddeiliaid gwybodus ac annibynnol yn hollbwysig i ACLI. Awgrymodd cefnogwyr eraill y dylid gofyn am farn siaradwyr Cymraeg lleol wrth gasglu tystiolaeth i nodi ardaloedd o sensitifrwydd neu o arwyddocâd ieithyddol.
- III. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr yr angen i sefydlu dull clir ar draws Cymru gyfan i nodi ardaloedd o'r fath, gyda rhai'n awgrymu y gallai'r Comisiynydd gynhyrchu arfer gorau neu ganllaw, ac eraill yn cynnig rôl graffu i'r Comisiynydd. Dywedodd nifer o'r ACLI y byddai angen i'r gwaith o gasglu tystiolaeth a chydweithio ddigwydd o fewn amserlenni paratoi ac adolygu CDLI. Ar y sail hon, awgrymodd rhai ACLI y dylai'r ymgynghoriad gyda'r sefydliadau hyn gael eu cynnal yn ôl disgrisiwn ACLI.


Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'n galonogol gweld lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer yr agwedd hon o'r Nodyn Cyngor Technegol drafft. Rydym yn cytuno â RTPI y bydd dynodi ardaloedd o sensitifrwydd neu o arwyddocâd ieithyddol yn arwain at ystyriaeth drylwyr o'r dystiolaeth wrth archwilio CDLI ac ystyrir bod hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y dull effeithiol o hybu a diogelu'r Gymraeg drwy CDLI.

Bydd y Nodyn Cyngor Technegol terfynol yn derbyn y bydd adnoddau ac arbenigedd yn amrywio ar draws y Mentrau Iaith yng Nghymru, ac mai adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i Gomisiynydd y Gymraeg eu hymrwymo i gefnogi ACLI. Felly, mae'n bwysig bod proses ymgysylltu gynnar yn cael ei chynnal rhwng ACLI a'r rhanddeiliaid allweddol.

4. Ydych chi'n cytuno ei bod yn dderbyniol cynnal Aseidiadau o'r Effaith ar yr Iaith wrth ystyried ceisiadau annisgwyl am ddatblygiadau preswyl mawr ar safleoedd ar hap mewn ardaloedd arbennig o sensitif a ddiffinnir yn y CDLI?

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
Awdurdodau Cynllunio Lleol	12	2	4
Busnesau	1	1	0
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	4	0	0
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb	3	0	2
Sector Gwirfoddol	3	1	0
Arall	5	0	1
Cyfanswm	28	4	7
%	72%	10%	18%



- I. Roedd dwy ran o dair o'r ACLI yn cytuno â'r cynnig ond dylid nodi bod pedwar awdurdod ym mröydd traddodiadol y Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru yn anghytuno, gan ddadlau na ddylid cyfyngu aseidiadau o'r effaith ar yr iaith i ddatblygiadau preswyl yn unig. Yn eu barn hwy, ac fe adleisiwyd y farn hon gan y RTPI a rhai ymatebwyr unigol, dylai'r ACLI allu galw am aseidiadau o'r effaith ar yr iaith ar ddatblygiadau masnachol, hamdden a thwristiaeth os ydynt yn pryderu ynglŷn â'u heffeithiau ar yr iaith Gymraeg. Bu i Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru holi a ddylid cyfyngu'r gallu i gynnal neu i ofyn am asesiad o'r effaith ar yr iaith i ddatblygiadau

ar hap annisgwyl yn unig, a mynegwyd y farn y dylai pob cais ar hap gael eu hasesu. Awgrymwyd y gallai lefel y manylion mewn asesiad amrywio yn ôl amgylchiadau lleol a manylion safleoedd. Dadleuodd Cadnant Planning y dylai unrhyw ddatblygiadau preswyl ar hap mawr mewn ardaloedd diffiniedig fod yn destun asesiad - nid dim ond y rhai hynny sy'n annisgwyl.


- II. Roedd ACLI yn gyffredinol yn cydnabod ac yn croesawu'r ymagwedd hyblyg at ddiffinio datblygiadau 'mawr', gyda dau awdurdod gwledig yn awgrymu y byddai trothwyon is yn briodol yn eu hardaloedd hwy, a chododd awdurdod trefol Caerdydd y posibilrwydd o bennu trothwy uwch. Roedd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn cytuno â'r cynnig ar y cyfan, ond dywedasant y byddai'n well ganddynt weld trothwy uwch yn cael ei gymhwyso yn hytrach na 10 annedd.
- III. Nid oedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn cytuno nac yn anghytuno ond cafwyd awgrym pwysig ganddynt y dylai safleoedd sy'n darparu 100% o dai fforddiadwy gael eu heithrio, o ystyried bod darparu tai fforddiadwy yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel tai sydd o fudd i gymunedau sy'n siarad Cymraeg. Yn yr un modd, roedd un ACLI a dau unigolyn o'r farn bod angen osgoi gosod gofyniad i gynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith ar ddatblygiadau sy'n annhebygol iawn o gael effaith negyddol ar yr iaith, naill ai trwy eu natur neu eu lleoliad.
- IV. Cynigiwyd rhai pwyntiau manwl mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Gofynnodd Cymdeithas y Cyfreithwyr am fanylion pellach ar sut y dylai asesiadau o'r effaith ar yr iaith fod yn rhan o'r gofynion newydd cyn cyflwyno cais cynllunio a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'n ymddangos bod y geiriad ym mharagraff 3.3.1 wedi achosi dryswch i rai ACLI, a ddehonglodd, yn anghywir, yr enghraifft a ddarparwyd fel yr unig senario perthnasol. Roedd un ymholiad a godwyd gan ACLI yn ymwneud â dyblygu'r term 'asesiad o'r effaith ar yr iaith', sydd wedi'i ddefnyddio mewn cyd-destun llunio polisiâu cyffredinol ac fel ymarfer ar gyfer barnu datblygiadau neu ddyraniadau arfaethedig yn y system gynllunio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cadarnhau y dylid ond defnyddio asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn amgylchiadau eithriadol ac rydym yn anghytuno â chyflwyno rhwystrau ychwanegol i fuddsoddiad mewn swyddi drwy ganiatáu asesiadau o'r effaith ar yr iaith ar ddatblygiadau cyflogaeth. Pe byddai ACLI unigol yn dymuno cyflwyno gofyniad i gynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith ar ddatblygiadau ar hap ar wahân i ddatblygiadau preswyl ar hap annisgwyl, mae'n rhaid iddynt nodi'r gofyniad hwnnw mewn polisi yn y CDLI a fydd yn destun archwiliad llawn. Bydd paragraff 3.3.1 yn cael ei ail-eirio er mwyn gwella eglurder y neges a fwriadwyd.

5. Ydych chi'n cytuno mai'r awdurdodau cynllunio lleol ddylai fod yn gyfrifol am baratoi Aseidiadau o'r Effaith ar yr Iaith?

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
Awdurdodau Cynllunio Lleol	0	2	16
Busnesau	1	0	1
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	3	0	1
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb	1	1	3
Sector Gwirfoddol	1	1	2
Arall	3	0	3
Cyfanswm	9	4	26
%	23%	10%	67%



- I. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn mai'r ymgeisydd neu'r datblygwr ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu aseidiadau o'r fath, a hynny am nifer o resymau. Cafwyd gwrthwynebiad cyffredinol gan yr ACLI ar y sail mai'r ymgeisydd sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad mewn meysydd polisi eraill, er enghraifft manwerthu, trafndiaeth ac ecoleg, felly, byddai'n anghyson disgwyl i'r ACLI gynnal yr asesiad hwn. Soniodd nifer o ACLI am y pwysau ar adnoddau a soniodd grwpiau diddordeb a busnesau am ddiffyg galluogrwydd arbenigol yn yr ACLI fel dadl bellach yn erbyn y cynnig. Awgrymwyd y

byddai dyletswydd o'r fath yn anghydnaws â tharged 8 wythnos ar gyfer gwneud penderfyniad ar y mwyafrif o geisiadau cynllunio.

- II. Dywedodd y nifer fach o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig ar y cyfan y byddai'n helpu i sicrhau triniaeth gyson o geisiadau cynllunio, ac yn lleihau'r posibilrwydd o oedi a all ddigwydd pan gyflwynir asesiadau o'r effaith ar yr iaith gan ymgeiswyr ac sydd yna'n cael eu gwrthwynebu gan drydydd parti neu'r ACLL.
- III. Un thema gyffredinol a gafwyd yn yr ymatebion, o blaid ac yn erbyn yr ymagwedd arfaethedig oedd parodrwydd i gael ymagwedd gyson ar draws Cymru gyfan a phroses asesu o safon uchel. Mynegwyd y dyhead hwn yn glir gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac ategwyd hyn gan grwpiau diddordeb megis Dyfodol i'r Iaith. Soniodd rhai am yr angen i ddatblygu arbenigedd yn y maes drwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau i ymgynghorwyr a chynllunwyr awdurdodau lleol, gan arwain at gymhwyster ffurfiol o bosibl.


Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'n amlwg bod y mwyafrif helaeth yn credu mai'r ymgeiswyr ddylai fod yn gyfrifol am gynnal unrhyw asesiadau o'r effaith ar yr iaith i gefnogi cais cynllunio. Fodd bynnag, nid ydym yn llwyr argyhoeddedig fod hyn yn addas gan fod safon asesiadau gan ddatblygwyr yn hanesyddol yn wael. Ni ddylai asesiadau effaith gael eu cynnal yn aml iawn, ond mae'r TAN yn hyrwyddo dull cydweithredol rhwng awdurdodau cynllunio lleol, rhanddeiliaid a datblygwyr pan fyddant yn cael eu cynnal.

6. Yn y ddogfen ddrafft a baratowyd at ddibenion ymgynghori, mae'r cyngor polisi a roddir yn TAN 20 yn cael ei gyfuno â'r canllawiau ymarferol pellach, sydd heb fod yn rhai rhagnodol. Ydych chi'n cytuno â hynny?

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
Awdurdodau Cynllunio Lleol	16	1	1
Busnesau	1	1	0
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	4	0	0
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb	5	0	0
Sector Gwirfoddol	3	0	1
Arall	2	3	1

Cyfanswm	31	5	3
%	79%	13%	5%




- I. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnig i nodi'r cyngor polisi a'r canllawiau ymarferol mewn un ddogfen, er eglurder a rhwyddineb cyfeirio. Cafwyd sylwadau hefyd gan nifer o ymatebwyr bod y rhaniad arfaethedig rhwng Rhan A a Rhan B y ddogfen ymgynghori yn rhesymegol ac yn darparu ffin glir rhwng y cyngor polisi a'r canllawiau ymarferol.
- II. Roedd un cafeat neu amod gyda'r dull hwn, a godwyd gan nifer fawr o'r ymatebwyr, yn ymwneud â'r gallu i ddiweddarau agweddau ar y canllawiau yn gyflym a diamwys. Fe awgrymodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru er enghraifft, y dylid adolygu canllawiau ymarferol anhagnodol yn rheolaidd, a hynny ar sail profiadau ACLI. Awgrymodd un ACLI y byddai arddangos y canllawiau mewn siart llif yn fuddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Croesewir y gefnogaeth glir i'r cynnig hwn a bydd y TAN 20 terfynol yn cyfuno'r cyngor polisi a'r canllawiau anhagnodol ymarferol. Byddwn yn ystyried ac yn archwilio i'r awgrym i ymgorffori siart llif yn y canllawiau.

7. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yng nghyswllt y newidiadau i TAN 20 (gweler Atodiad B). Ydych chi'n cytuno bod yr asesiad hwnnw'n gywir o ran y modd y mae'n amlinellu'r effaith y bydd y canllawiau'n ei chael ar y Gymraeg?

Ymatebwyr yn ôl math	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno
Awdurdodau Cynllunio Lleol	13	3	1
Busnesau	1	1	0
Asiantaethau'r Llywodraeth / Sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus	4	0	0
Cyrff Proffesiynol / Grwpiau Diddordeb	3	0	1
Sector Gwirfoddol	2	0	2
Arall	2	0	3
Cyfanswm	25	4	7
%	69%	11%	19%



- I. Cafwyd sylwadau cyffredinol gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a baratwyd ei fod yn ddefnyddiol ac wedi'i gynnal yn gywir. Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno oedd awgrymiadau bod angen darparu manylion ac eglurder pellach yn yr asesiad, a mynegwyd pryder bod yr asesiad yn cael ei gynnal heb ofal a sylw digonol. Defnyddiodd rhai o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn hefyd fel cyfle i anghytuno ymhellach â'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Nodyn Cyngor Technegol.

8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, mae croeso ichi roi gwybod inni.

Roedd cwestiwn olaf yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddarparu sylwadau ysgrifenedig ychwanegol ar y Nodyn Cyngor Technegol drafft. Mae'r sylwadau wedi'u trefnu o dan dri phennawd cyffredinol - cynnwys, strwythur ac arall.

Cynnwys

- I. Awgrymwyd y gallai'r TAN drafft roi mwy o bwyslais ar rôl y Cynlluniau Llesiant Lleol i bennu'r brif weledigaeth ar gyfer yr ardal yn nhermau'r Gymraeg. Un awgrym arall a gyflwynwyd gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi oedd y dylid cynnwys rhagor o astudiaethau achos neu enghreifftiau eraill o arfer da yn rhan B y TAN.
- II. Cafwyd awgrym gan nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys ACLI, RTPI Cymru, Cymdeithas yr Iaith ac unigolion y gellid defnyddio cywair mwy cadarnhaol yn y TAN, er enghraifft nodi mesurau 'hybu' yn hytrach na mesurau 'lliniaru'. I'r gwrthwyneb, cyflwynwyd safbwyntiau bod y ddogfen yn llawer rhy gadarnhaol ac nad oedd yn cydnabod bod datblygiadau yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Mynegodd un busnes y farn y gellid ystyried y maes polisi cyfan fel rhwystr at ddatblygiad, a bod gweithredu'r canllaw a nodir yn y TAN drafft yn clustnodi rhai ardaloedd fel lleoedd i'w hosgoi i fuddsoddwyr a busnesau.
- III. Dywedodd grŵp o ymatebwyr unigol y dylai'r TAN bwysleisio ac esbonio bod adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) yn berthnasol drwy Gymru gyfan, a bod angen diwygio unrhyw awgrym sy'n awgrymu ei bod ond yn berthnasol i ardaloedd o sensitifrwydd neu o arwyddocâd ieithyddol, yn unol â hynny.
- IV. Mynegodd Comisiynydd y Gymraeg ei chefnogaeth i nifer o elfennau yn y Nodyn Cyngor Technegol drafft, ond gwnaeth nifer o sylwadau hefyd sy'n awgrymu eu bod yn credu bod angen ymgorffori rhagor o fesurau wrth gefn yn y canllaw. Er enghraifft, rhoddodd y Comisiynydd ei chefnogaeth i gynnal asesiadau llawn o Gynlluniau Datblygu Lleol, ond gofynnodd am sicrwydd y byddai cyfleoedd pellach ar gael i gynnal asesiadau pe byddai gwybodaeth newydd yn dod i law. Roedd enghraifft arall a nodwyd gan y Comisiynydd yn cyfeirio at senario damcaniaethol lle bydd ACLI yn dod i'r casgliad bod asesiadau cynharach yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd ac felly dylai bod cyfle i ail-asesu'r effeithiau ar y Gymraeg yn y cam cais cynllunio. Y pryder i Lywodraeth Cymru y bydd darparu rhwydi diogelwch o'r fath olygu na fydd ACLI yn cynhyrchu asesiadau cadarn a chynhwysfawr o bosibl, fel rhan o Werthusiad Cynaliadwyedd CDLI. Dylai'r ateb olygu asesiadau gwell ar y cam cynhyrchu cynlluniau, yn hytrach nac asesiadau pellach ar gamau diweddarach yn y broses.

- V. Cynigiodd Cymdeithas yr Iaith ddull arall o ymdrin â'r fframwaith a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar 'Gontinwmm datblygu'r Gymraeg'. Byddai hyn yn golygu y byddai pob ardal yng Nghymru yn cael eu diffinio i ryw raddau fel ardaloedd ag arwyddocâd ieithyddol, ar raddfa sgôr 4 pwynt. Byddai gofynion gofynnol yn cael eu pennu ar gyfer pob gradd ar y raddfa ar gyfer pob datblygiad perthnasol. Bwriedir i'r awgrym hwn ddisodli'r hyn sydd, ym marn Cymdeithas yr Iaith, yn ddewis negyddol, syml rhwng diffinio ardal naill ai'n sensitif/arwyddocaol neu beidio eu diffinio o gwbl.

Strwythur

- VI. Gwnaed nifer o sylwadau ar strwythur y ddogfen yn erbyn cwestiwn 6 yr ymgynghoriad, ond codwyd ychydig mwy o sylwadau am gwestiwn 8. Awgrymodd un corff proffesiynol / grŵp diddordeb y byddai rhoi rhagor o fanylion yn y troednodiadau yn eu cynorthwyo i groesgyfeirio gyda Pholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol eraill. Awgrymodd yr RTPi bod cywair y Nodyn Cyngor Technegol yn canolbwyntio gormod ar gynghori ACLI, ac y dylid cynnig rhagor o arweiniad i Arolygwyr Cynllunio. Roedd hefyd yn gofyn i'r Nodyn Cyngor Technegol gynnwys datganiad y bydd Arolygwyr yn dilyn y cyngor sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen.

Arall

- VII. Roedd nifer o fach o'r sylwadau yn ymwneud â materion y tu hwnt i reolaeth y system Cynllunio Gwlad a Thref. Roedd rhai'n credu y dylai'r Nodyn Cyngor Technegol gynnwys rhethreg gref ar enwau lleoedd Cymraeg ac arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog, ond nid yw'r system gynllunio yn gyfrifol am benderfyniadau yn y meysydd hyn. Mae TAN 20 yn annog ACLI i ymateb yn gadarnhaol i'r materion hyn pan fydd hynny'n bosibl, ond ni allant orfodi yn erbyn enwau lleoedd neu arwyddion nad ydynt yn Gymraeg. Yn yr un modd, nid yw sylwadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cwsmeriaid neu brosesau gweithredol yn Gymraeg yn faterion cynllunio penodol; mae'r rhain yn ymwneud â safonau'r Gymraeg, y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.6.2 y Nodyn Cyngor Technegol drafft.

6 Diwygiadau arfaethedig

6.1 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos bod y mwyafrif o randdeiliaid yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y Nodyn Cyngor Technegol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai manylion na chawsant gefnogaeth gyffredinol, gyda phwysau'r gwrthwynebiad a'r dadleuon cryf dros newid yn darparu rhesymeg ar gyfer diwygiadau pellach. Bydd y newid o sylwedd canlynol yn cael ei argymhell i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig:

i. Cwmpas ehangach ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg.

Roedd fersiwn yr ymgynghoriad yn awgrymu mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg, i asesu cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl. Argymhellir y dylid cynnal y polisi hwn yn gyffredinol, ond caniatáu i ACLI ddatblygu eithriadau profedig sy'n briodol i'r ardal leol, pan fyddant yn hyderus bod tystiolaeth i gefnogi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar fathau eraill o ddatblygiadau ar hap.

6.2 Bydd y fersiwn terfynol hefyd yn cynnig rhai mân newidiadau, o ran eglurdeb a chywirdeb, er mwyn gwella ansawdd cyffredinol y ddogfen.

6.3 Bydd Llywodraeth Cymru cyhoeddi'r TAN 20 diwygiedig yn yr hydref, 2017.

Atodiad – Rhestr o’r sefydliadau a’r unigolion a gyflwynodd sylwadau

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Casnewydd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bro Morgannwg

Asiantaethau’r Llywodraeth / sefydliadau eraill y sector cyhoeddus

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Cymuned Llanengan
Un Llais Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cyngor Tref y Drenewydd

Cyrff proffesiynol / grwpiau diddordeb

Cymdeithas yr Iaith
Dyfodol i’r Iaith
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
RTPI Cymru

Busnesau

Helen Howie, Syrfewyr Siartredig Berrys
Cadnant Planning
Sainsbury’s Supermarkets Ltd

Sector Gwirfoddol

Clive James
Grŵp Tai Cymunedol Cymru
Mentrau Iaith Cymru

Unigolion

Jane Aaron
Graham Bowen
W. Davies
Hazel Charles Evans, Llais yr Andes
Huw Prys Jones, Hanfod
Mabli Jones
Huw Michael

Carl Morris
Dewi Morris
Colin Nosworthy
Owain Lewis
Wyn Thomas
Elwyn Vaughan

Cafwyd cais gan dri chynrychiolydd i barhau’n ddiennw. Mae copiâu o’r holl sylwadau ar gael ar gais gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru